

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, “Roeddwn i’n arfer bod yn rhywun: Ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru”

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd wedi dianc rhag rhyfel, newyn neu erledigaeth yn gallu cyflawni eu potensial yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r cyfle yn sgil yr ymchwiliad hwn i dynnu sylw at y cymorth rydym yn ei roi i rai o'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei adroddiad a'i argymhellion gofalus, yn ogystal ag i'r rheini sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus ac i sefydliadau sy'n cynorthwyo ffoaduriaid am eu hamser a'u hymdrech yn rhoi tystiolaeth o ansawdd da i'r Pwyllgor.

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o hanes Cymru wrth groesawu a rhoi lloches ddiogel i ffoaduriaid a dymunwn barhau â'r traddodiad hwn. Yn ystod yr ymchwiliad, clywyd straeon cadarnhaol niferus am yr holl gymorth y mae ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd Cymru yn ei gael. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o waith o hyd i'w wneud i sicrhau bod y rheini sy'n cyrraedd yma i ailadeiladu eu bywydau yn y gallu gwneud hynny'n iawn.

Mae'r adroddiad yn nodi mai gan Lywodraeth y DU y mae llawer o'r cyfrifoldeb dros bolisiâu sy'n ymwneud â cheiswyr lloches. Mae heriau sylweddol hefyd yn ein hwynebu wrth geisio cynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn effeithiol wrth i adnoddau brinhau. Fodd bynnag, er gwaethaf y rhwystrau hyn, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf ac mae llawer mwy y gobeithiwn ei gyflawni er mwyn gofalu bod y rheini sy'n chwilio am loches yn gallu dod o hyd i'r lloches honno yng Nghymru.

Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad i'w gweld isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i amserlen benodol i gynnal ymgynghoriad cyflym ond cynhwysfawr ar Gynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches ac adolygiad o'r Cynllun hwnnw. Dylai'r Cynllun diwygiedig gynnwys camau gweithredu mesuradwy, amserlenni ac adnoddau, a dylai gynnwys arfer gorau o'r Alban, gan gynnwys safonau ar gyfer darparu gwasanaethau a mentrau sydd wedi'u hanelu at wella canfyddiadau'r cyhoedd o ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Ymateb: Derbynn

Yn ystod sesiwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor, ymrwymodd i adolygu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches ('y Cynllun Cyflawni') yn ystod 2017. Bydd yr adolygiad o'r Cynllun Cyflawni yn rhoi sylw i argymhellion y Pwyllgor, a disgwylir cynnal ymgynghoriad ddiwedd yr haf ac yn hydref 2017. Byddwn yn gweithio gyda'r Rhaglen Hawliau Lloches, sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru a'i harwain gan Gyngor Ffoaduriaid

Cymru, i sicrhau bod y Cynllun Cyflawni yn cael ei ddatblygu ar y cyd â ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Y bwriad yw cyhoeddi'r cynllun newydd ym mis Ionawr 2018.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnal cyfarfodydd chwarterol o Fwrdd Gweithrediadau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru, a sicrhau bod gan y Bwrdd raglen waith glir ac yn cyhoeddi cofnodion o'r cyfarfodydd.

Ymateb: Derbyn

Cyfarfu Bwrdd Gweithrediadau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru ('y Bwrdd') ar 27 Chwefror 2017; roedd hynny cyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor. Yn y cyfarfod hwnnw, cytunwyd i ehangu cylch gwaith y Bwrdd i gynnwys materion sy'n ymwneud ag adsefydlu pob ffoadur a cheisiwr lloches, waeth sut y bu iddynt gyrraedd Cymru. Cytunwyd hefyd i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd bob chwarter, er y bydd mymryn o oedi cyn cynnal y cyfarfod nesaf er mwyn osgoi'r cyfnod cyn yr Etholiad Cyffredinol. Mae cyfarfod nesaf y Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Gorffennaf 2017 a chaiff y flaenraglen waith ei thrafod yn y cyfarfod hwnnw; bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried adroddiad y Pwyllgor a'i ymateb iddo. Bydd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru o hyn allan.

Rydym yn gwbl ymwybodol o'r pryder ynghylch sut y gallai system "ddwy haen" effeithio ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Nod Llywodraeth Cymru yw lleihau effaith rhaglen Llywodraeth y DU i flaenoriaethu ffoaduriaid o Syria pan fydd modd gwneud hynny o fewn cyfyngiadau'r rhaglen a'r amodau cyllido. Drwy ehangu cylch gwaith y Bwrdd, dylem allu monitro hyn yn fwy effeithiol a sicrhau bod pob ffoadur yng Nghymru yn cael ei drin mor gyson a theg â phosibl.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad ar unwaith o'r effaith y bydd Deddf Mewnfudo y DU 2016 yn ei chael ar Gymru. Dylai'r asesiad hwn gynnwys canfod pryd y bydd y prawf Hawl i Rentu yn cychwyn yng Nghymru, ac effaith y Ddeddf ar y cymorth sydd ar gael i geiswyr lloches aflwyddiannus a'u teuluoedd. Dylai Llywodraeth Cymru drafod ei hasesiad gyda'r Swyddfa Gartref a gofyn am arian ychwanegol i dalu am unrhyw gostau ychwanegol a godir o'r ddeddfwriaeth. Yna dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol, landlordiaid a rhanddeiliaid eraill yn barod ar gyfer effaith y newid hwn yn y gyfraith, gan gynnwys cyhoeddi a lledaenu canllawiau cynhwysfawr.

Ymateb: Derbyn

Mae'r gwaith o asesu effaith Deddf Mewnfudo 2016 ar Gymru wedi dechrau, ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar fyr i ofyn am eu barn ar y mater hwn.

Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU sawl gwaith i egluro'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r profion Hawl i Rentu yng Nghymru, ond heb lwyddiant hyd yma. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant hefyd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref yn gofyn am werthuso'r cynllun yn Lloegr cyn ei gyflwyno yng Nghymru yn sgil pryderon am wahaniaethu a godwyd mewn adroddiad gan y Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr.

Os bydd angen rhagor o ganllawiau i awdurdodau lleol, landlordiaid neu randdeiliaid eraill ar ôl cwblhau'r asesiad, byddwn yn trafod hyn â Llywodraeth y DU ac yn ystyried y ffordd orau o ddarparu ar gyfer hyn.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i adolygu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol 2016-17. Dylai'r Cynllun diwygiedig gynnwys strategaeth gyfathrebu sy'n pwysleisio manteision mewnfudo i gymdeithas Cymru ac yn chwalu mythau ac anwiredd mewn cysylltiad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Dylai hefyd gynnwys ymgyrch cyhoedduswydd ledled Cymru sy'n debyg i'r un sydd eisoes wedi'i gwneud yn yr Alban.

Ymateb: Derbynn

Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol ('y Cynllun') wrthi'n cael ei ddiweddarau. Bydd y Cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi yn haf 2017 a bydd yn cynnwys camau penodol i geisio datblygu naratif mwy cadarnhaol ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cael eu hadsefydlu yng nghymunedau Cymru. Bydd y Cynllun hefyd yn cynnwys amrywiaeth o gamau i hyrwyddo a rhoi cyhoedduswydd i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydlyniant cymunedol, gan roi sylw i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio yn yr Alban a mannau eraill.

Fel rhan o hyn byddwn yn gweithio gydag is-grŵp Cyfathrebu Bwrdd Gweithrediadau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru i ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar y cyd, gyda chysylltiad agos rhwng honno â'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol. Drwy roi'r Cynllun ar waith, byddwn yn cydweithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau perthnasol a'r cyfryngau yng Nghymru er mwyn hyrwyddo negeseuon cadarnhaol a mynd i'r afael â negeseuon nad ydynt yn llesol.

Rydym hefyd wedi ariannu'r Rhaglen Hawliau Lloches, a hynny drwy'r Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant, er mwyn gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches i greu adroddiadau i'r cyfryngau a'r rheini'n herio stereoteipiau negyddol. Bydd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael cyfle i adrodd eu straeon wrth sefydliadau'r cyfryngau gyda'r nod o gynyddu cyd-ddealltwriaeth, meithrin perthnasau da rhwng cymunedau a gwella cydlyniant cymunedol.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ehangu rôl y cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol y tu hwnt i SVPRP i bob ffoadur a cheisiwr lloches i helpu i gyflawni Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol diwygiedig.

Ymateb: Derbynn

Mae'r Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ('y Cydgysylltwyr') sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru eisoes yn helpu i integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn nifer o ffyrdd, a hynny heb fod eu gwaith wedi'i gyfyngu i Raglen Adsefydlu Syria. Er enghraifft, yn ardaloedd gwasgaru Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam, mae'r Cydgysylltwyr wedi defnyddio strategaethau cyfathrebu a chwalu mythau, yn ogystal â chynllunio'n strategol ar gyfer rhagor o ardaloedd gwasgaru/lloches a chynnal trafodaethau gyda darparwyr llety lloches. Mewn ardaloedd eraill, mae'r Cydgysylltwyr wedi arwain ar yr ymateb lleol i'r cynllun nawdd cymunedol ac i'r broses o roi'r Rhaglen Cyfieithwyr Afghan ar waith.

Mae'r drafft o'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol 2017/18 yn nodi'n ffurfiol y bwriad y dylai Cydgysylltwyr helpu i adsefydlu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn effeithiol yn eu hardaloedd, ac nid y rheini sy'n cyrraedd o dan gynllun Syria yn unig. Serch hynny, gwaith y Cydgysylltwyr yw helpu i integreiddio pobl yn gynaliadwy o fewn yr awdurdod lleol yn hytrach na gweithio'n barhaol i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn ffordd weithredol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn cynlluniau trafndiaeth rhatach i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys plant, i'w galluogi i gael gwell mynediad i addysg, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli.

Ymateb: Gwrthod

Mae ffoaduriaid eisoes yn gallu derbyn budd-daliadau gan gynnwys budd-daliadau ar gyfer teithio, ar yr un sail â thrigolion eraill yng Nghymru. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu gorfodi teithio rhatach ar gyfer ceiswyr lloches heb newid deddfwriaethol. Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cefnogaeth ariannol o £36.95 yr wythnos ar gyfer ceiswyr lloches, sy'n cynnwys swm bach iawn ar gyfer costau cludiant. Dylai unrhyw gyllid ar gyfer cludiant rhatach cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad manwl o'r ddarpariaeth bresennol o gyrsiau ESOL a'i asesiad o'r galw yn y dyfodol. Yna dylai weithio gydag awdurdodau lleol i gydgyssylltu sgiliau a gallu mewn colegau Addysg Bellach a sefydliadau Addysg Uwch fel rhan o gynllun gweithredu newydd i'w gyhoeddi cyn dechrau blwyddyn academaidd 2017/18. Dylai'r cynllun gweithredu:

- lenwi unrhyw fylchau mewn darpariaeth;
- sicrhau bod ffoaduriaid yn cael cynnig dosbarthiadau priodol cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gyrraedd yng Nghymru; a
- mynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad i ddosbarthiadau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ('ESOL') os yw Cymru am fod yn wlad amrywiol a chynhwysol. Fodd bynnag, mae'n rhy hwyr yn y broses o gynllunio darpariaeth 2017/18 i allu gwneud y newidiadau y gofynnwyd amdanynt cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Byddwn yn diweddarau Polisi ESOL Cymru erbyn mis Mawrth 2018, gan roi sylw i'r galw cynyddol am ESOL ac anghenion ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Pan fydd hynny'n briodol, mae dysgwyr ESOL yn cael eu hannog i fanteisio hefyd ar y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, er mwyn iddynt ddysgu Cymraeg.

Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr mewn llywodraeth leol, yn y trydydd sector ac yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod darpariaeth ieithyddol addas ar gael ar gyfer y bobl sy'n ymgartrefu yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw welliannau y gallwn eu gwneud er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol ar gael i fwy o bobl.

Mae Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru ar hyn o bryd wrthi'n mapio'r ddarpariaeth ESOL ffurfiol ac anffurfiol yng Nghymru, yn ogystal ag anghenion dysgu ieithyddol y rheini sy'n cyrraedd yma o dan Raglen Adsefydlu Syria a'r Rhaglen Adsefydlu Plant sy'n Agored i Niwed. Y gobaith yw canfod pethau i'w dysgu ac arferion da o'r gwaith hwn er mwyn gwella darpariaeth ESOL i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ledled Cymru.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r holl bartneriaid yn y broses llety lloches i adolygu gweithdrefnau cwynion, canllawiau arnynt a'r gwaith o'u lledaenu a monitro sut yr ymdrinnir ag achosion cwynion byw. Dylai'r cyfarfodydd hyn gael eu hysbysebu'n briodol fel bod ceiswyr lloches a'r rhai sy'n eu cefnogi yn ymwybodol o'r trafodaethau a'r canlyniadau a'u bod yn cymryd rhan yn y broses.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cydnabod gwerth y cyfarfodydd y mae'r argymhelliad hwn yn eu cynnig, ond byddai derbyn yr argymhelliad yn golygu dyblygu'r cyfarfodydd defnyddiol iawn sydd eisoes yn cael eu trefnu gan Bartneriaeth Ymfudo

Strategol Cymru, drwy gyfarfodydd Fforwm NGO COMPASS. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd i'r cyfarfodydd hyn er mwyn monitro problemau sy'n deillio o'r system llety lloches a byddwn yn trafod y problemau hyn â Llywodraeth y DU pan fydd hynny'n briodol.

Byddwn hefyd yn cyllido fforymau eiriolaeth yng Nghaerdydd ac Abertawe drwy ein Rhaglen Hawliau Lloches er mwyn sicrhau bod lleisiau ceiswyr lloches yn cael eu clywed a bod ceiswyr lloches yn cael cymorth i fynd i'r afael â phroblemau â'u llety.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau brys gyda'r Swyddfa Gartref i ddiwygio'r system llety lloches cyn y broses adnewyddu contract yn 2019. Dylai'r diwygiadau gynnwys:

- partneriaid cyflawni yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu, dyfarnu a monitro'r contract;
- proses cwynion annibynnol i geiswyr lloches yng Nghymru, gan gynnwys cofrestr ganolog o gwynion, gwaith monitro systematig o'r cynnydd yn eu datrys a chyfleu amserlenni i denantiaid; a
- hyfforddiant cydraddoldeb i staff contractwyr.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yna argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod landlordiaid ceiswyr lloches yn rhan o gynllun cofrestru, naill ai fel estyniad neu gyflenwad i Rhentu Doeth Cymru. Dylai'r cynllun gynnwys rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i gynnal arolygiadau manwl o eiddo sy'n cartrefu ceiswyr lloches ac adrodd yn rheolaidd ar safonau llety.

Ymateb: Derbyn argymhellion 9 a 10

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ymwneud â'r ymgynghoriad ynghylch gwednewid llety lloches a'r cymorth a roddir i geiswyr lloches. Ymgynghoriad yw hwn sy'n edrych ar newidiadau i'r system llety lloches. Ym mis Rhagfyr 2016, ysgrifenasom at Lywodraeth y DU yn gofyn am wneud newidiadau i'r contractau COMPASS (Rheolwyr Masnachol a Gweithredol yn Caffael Gwasanaethau Cymorth i Geiswyr Lloches) ar ôl 2019.

Dyma'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt:

- Bod Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol yng Nghymru yn craffu ar ansawdd llety lloches yn rheolaidd;
- Dylai'r contract newydd gynnwys dangosyddion perfformiad clir er mwyn caniatáu cymalau terfynu pan fydd safon y llety neu ansawdd y gwasanaeth y bydd tenantiaid yn ei gael yn gyson wael;
- Dylai'r contract newydd fod ar sail dielw, drwy gymdeithasau tai, sefydliadau'r trydydd sector neu awdurdodau lleol.
- Dylai'r contract newydd ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr gefnogi cydlyniant cymunedol drwy fod yn aelod o fforymau partneriaeth lleol a thrwy gefnogi mentrau sy'n helpu i integreiddio pobl.
- Dylid sefydlu proses gwyno annibynnol a dylid rhoi gwybod i geiswyr lloches na fydd cwynion am y landlord yn effeithio ar eu cais am loches.

Dylid nodi y bydd goblygiadau cyllido yn sgil unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a roddir i Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol Cymru i archwilio eiddo, a byddem yn disgwyl i Lywodraeth y DU dalu'r costau hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymwneud â'r ymgynghoriad ynghylch gwednewid llety lloches a'r cymorth a roddir i geiswyr lloches, er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn rhoi sylw i argymhellion y Pwyllgor, gan gynnwys yr argymhellion ynghylch hyfforddi staff contractwyr, wrth gynllunio'r contractau llety lloches newydd.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, drwy'r Gwasanaeth Cynhwysiant Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Mudwyr newydd, fod darpariaeth ddigonol o gyngor cyfreithiol; gwybodaeth reolaidd i atgoffa am bwysigrwydd sgrinio iechyd yn ogystal â chymorth i bobl fynd i gael eu sgrinio; a chymorth iechyd meddwl, sy'n cael ei oruchwylio gan grŵp o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol 'Freedom From Torture'. Dylai fframwaith monitro a gwerthuso cadarn fod yn sail i'r Gwasanaeth.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau safonau gofynnol cymorth iechyd meddwl i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches gyda thrawma, yn unol ag argymhellion Cymdeithas Seicolegol Prydain.

Ymateb: Derbynn argymhellion 11 a 18 mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i'r Rhaglen Hawliau Lloches er mwyn rhoi cyngor a chefnogaeth drwy eiriolaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan gynghrair o saith sefydliad, pob un â phrofiad o roi cymorth i'r unigolion hyn yng Nghymru. Cyngor Ffoaduriaid Cymru fydd yn arwain y gynghrair, gyda chymorth y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), Bawso, Asylum Justice, Tros Gynnal Plant, Alltudion ar Waith a City of Sanctuary.

Bydd Cyngor Ffoaduriaid Cymru, EYST a BAWSO yn darparu gweithwyr achos yn Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam er mwyn rhoi gwybodaeth arbenigol am loches, tai, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, cyflogaeth, bwlio, troseddau casineb, gwahaniaethu ac amddifadedd. Bydd BAWSO hefyd yn helpu'r rheini sy'n profi trais ar sail rhywedd neu gaethwasiaeth fodern, neu'r rheini sydd mewn risg o wynebu hynny.

Bydd Tros Gynnal Plant yn rhoi cymorth drwy eiriolaeth i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASC), gan eu helpu drwy'r broses asesu oedran a'u cynorthwyo i gael cymorth addas.

Bydd Asylum Justice yn darparu gweithiwr achos cyfreithiol i roi cynrychiolaeth a chynghor cyfreithiol arbenigol i bobl gyda'u cais am loches.

Bydd canolfan galw i mewn yn Abertawe ar gael yn ogystal â'r un bresennol yng Nghaerdydd, a bydd gwasanaethau allgymorth ar gael drwy'r rhyngwyd yng ngweddill Cymru.

Bydd City of Sanctuary ac Alltudion ar Waith yn cynnal fforwm eiriolaeth er mwyn rhoi cyfleoedd i bobl ganfod materion sy'n achosi pryder a dadlau'r achos dros newidiadau cadarnhaol. Byddant hefyd yn cefnogi 'Sanctuary Speaker Groups' i rannu profiadau am noddfa gyda chynulleidfaoedd cyhoeddus a'r cyfryngau.

Bydd pob partner yn rhoi cyfleoedd i wirfoddoli ac yn ceisio meithrin perthnasau da rhwng ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r gymuned ehangach. Bydd tîm cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn monitro'r rhaglen yn chwarterol.

Bydd y consortiwm hefyd yn gweithio'n agos gyda Chynghrair Ffoaduriaid Cymru, sy'n cynnwys tua deg ar hugain o sefydliadau (gan gynnwys aelodau'r consortiwm eu hunain), i sicrhau bod y Rhaglen Hawliau Lloches yn cyd-fynd mor agos â phosibl a'r rhaglenni cymorth eraill sy'n bodoli ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod angen rhoi cymorth ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol, ond nid y Rhaglen Hawliau Lloches yw'r ffordd fwyaf priodol o ddarparu hyn. Byddwn yn gweithio gyda Phractis Mynediad at Iechyd Caerdydd, Llywodraeth y DU a'r darparwyr llety lloches i sicrhau bod ceiswyr lloches yn cael negeseuon atgoffa priodol sy'n ymwneud ag iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi llwybr gofal iechyd meddwl drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 009. Rydym wedi rhoi £40,000 yn ddiweddar i helpu byrddau iechyd lleol i hyfforddi clinigwyr iechyd meddwl plant, y glasoed ac oedolion, a hynny er mwyn trin PTSD ymhlith ffoaduriaid a cheiswyr lloches (yn blant ac yn oedolion ill dau). Rydym hefyd wedi cyhoeddi llwybr gofal iechyd meddwl i sicrhau diagnosis a thriniaeth mwy effeithlon ac effeithiol.

Mae Llywodraeth y DU yn ddiweddar wedi awgrymu ei bod yn bwriadu buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen awdurdodau lleol yn y meysydd hyn, gan geisio datblygu dull cyson o fwrw ati drwy'r DU. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch yr hyn a fyddai'n addas i Gymru.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys camau penodol i helpu ceiswyr lloches a cheiswyr lloches aflwyddiannus i osgoi amddifadedd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches diwygiedig, gan gynnwys creu cronfa grantiau bach i geiswyr lloches a phobl nad oes ganddynt unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus, drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae modd i ffoaduriaid eisoes ddefnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol ('y Gronfa'), ond nid yw ceiswyr lloches a'r rheini sydd heb y gallu i gael gafael ar gyllid cyhoeddus yn gymwys i wneud cais. Mae'r Gronfa yn ddibynnol ar wiriadau drwy System Gwybodaeth Cwsmeriaid yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n defnyddio rhifau Yswiriant Gwladol i gadarnhau pwy yw pobl. Rydym yn ymwybodol y bydd rhai pobl sydd newydd gael statws ffoaduriaid yn wynebu oedi cyn cael rhifau Yswiriant Gwladol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae'n hynny'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn profi amddifadedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau am y problemau gweinyddol sy'n deillio o'r cyfnod 'Symud Ymlaen' (gweler yr ymateb i argymhelliad 14). Gall gwell gweinyddu (neu gyfnod hwy) leihau pa mor debygol yw amddifadedd a sicrhau bod mwy o ffoaduriaid yn gymwys i ddefnyddio'r Gronfa.

Mae'r contract ar gyfer y Gronfa yn bodoli tan 2020 a byddai'n anodd iawn newid y modd y mae'n gweithredu er mwyn cynnwys ceiswyr lloches a cheiswyr lloches aflwyddiannus. Serch hynny, byddwn yn gweithio gyda phartner cyflawni'r Gronfa – Northgate – er mwyn edrych i weld a ellid cynnwys unrhyw hyblygrwydd yn y system i sicrhau nad yw'r oedi y mae ffoaduriaid yn ei wynebu yn eu rhwystro rhag bod yn gymwys i gael cyllid.

Gall y Rhaglen Hawliau Lloches newydd roi cyngor ac eiriolaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, waeth beth yw eu statws mewnfudo, a bydd y Rhaglen yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau presennol sy'n rhoi cymorth mewn achosion o amddifadedd drwy hyrwyddo'u gwasanaethau a datblygu sail dystiolaeth i'n helpu i ddeall beth sy'n achosi amddifadedd.

Yn sgil profiadau rhannau eraill o'r DU, byddwn yn ystyried a fyddai cronfa grantiau fechan i geiswyr lloches a'r rheini sydd heb y gallu i gael gafael ar gyllid cyhoeddus yn ddichonadwy neu'n ddymunol.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i helpu pobl sydd â statws ffoaduriaid i ddod o hyd i lety addas yng Nghymru. Dylai sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod pryd y bydd ceiswyr lloches yn eu hardal yn cael statws ffoaduriaid, a gofyn i awdurdodau lleol ystyried p'un a yw'r ffoadur newydd yn agored i niwed ac felly eu bod mewn angen blaenoriaeth am gartref ynghyd â grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyllido Cyngor Ffoaduriaid Cymru ('y Cyngor') i ddarparu'r Prosiect Tai i Ffoaduriaid, a hynny drwy ein Grant Atal Digartrefedd. Mae'r prosiect yn rhoi cymorth hanfodol i ffoaduriaid sydd newydd gael y statws hwnnw er mwyn eu helpu i ddod o hyd i lety addas ac ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru.

Er nad oes gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol yn y broses o roi statws ffoaduriaid ac er nad yw'n cael gwybod gan Lywodraeth y DU pan fydd hyn wedi digwydd, byddwn yn ystyried a oes ffyrdd y gallai'r Prosiect Tai i Ffoaduriaid helpu'r system bresennol i weithio'n fwy effeithiol, a byddwn yn trafod hyn gyda Llywodraeth y DU.

Mae rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol helpu pobl sy'n ddigartref neu'n wynebu'r bygythiad o fod yn ddigartref. Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014 ('Rheoliadau 2014') yn gwneud darpariaeth ar gyfer pobl o dramor sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae hyn yn cynnwys unigolion sydd wedi cael statws ffoaduriaid yn unol â'r Confensiwn ynglŷn â Ffoaduriaid fel y diffinnir hynny yn Rheoliadau 2014. Byddwn yn ystyried a oes angen rhagor o ganllawiau ar awdurdodau lleol er mwyn helpu i roi'r darpariaethau hyn ar waith.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref ynghylch ymestyn y cyfnod symud ymlaen 28 diwrnod i 56 diwrnod.

Ymateb: Derbyn

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi cymorth i unigolion cymwys y mae disgwyl iddynt ddod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod. Fodd bynnag, 28 diwrnod yw cyfnod 'symud ymlaen' presennol Llywodraeth y DU ar gyfer ffoaduriaid. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r oedi yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n atal ffoaduriaid rhag dod o hyd i lety addas. Gall pethau fel rhoi rhifau yswiriant gwladol yn hwyr, sy'n hanfodol er mwyn cael gwasanaethau hanfodol, achosi oedi o'r fath.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid dechrau'r broses integreiddio y diwrnod ar ôl i rywun gyrraedd Cymru. Fodd bynnag, os nad oes modd i ffoadur symud yn ddi-drafferth i lety gwahanol ar ddiwedd y cyfnod 'symud

ymlaen', mae risgiau sylweddol y byddant yn wynebu amddifadedd. Er mwyn lleihau'r risg o hynny, ac er mwyn i'r cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol Cymru fod yn debycach i'w cyfrifoldebau i ddinasyddion eraill, byddwn yn lleisio barn wrth Lywodraeth y DU ynghylch y cyfnod 'symud ymlaen'.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gael mynediad at addysg a chyflogaeth drwy:

- hyrwyddo Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru mor eang ag y bo modd, i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a darparwyr gwasanaethau;
- ei gwneud yn ofynnol bod prifysgolion Cymru yn trin ffoaduriaid fel myfyrwyr cartref; a
- chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer interniaethau sector cyhoeddus a chyfleoedd gwirfoddoli wedi'u cynllunio ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd addysg a chyflogaeth er mwyn integreiddio pobl yn effeithiol mewn cymdeithas. Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru bellach yn cael ei reoli gan bartneriaeth weithredol strategol rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a Chymwysterau Cymru. Mae'r amcanion gweithredol yn cael eu cytuno a'u pennu'n flynyddol gan Grŵp Cynghori'r Fframwaith.

Fel rhan o Gynllun Cyfathrebu'r Fframwaith, rydym yn bwriadu targedu ffoaduriaid, ceiswyr lloches a darparwyr gwasanaethau mewn negeseuon hyrwyddo ychwanegol.

O dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017, mae ffoaduriaid sy'n bodloni'r gofynion preswyllo ac yn byw fel rheol yng Nghymru yn gymwys i gael cyllid cymorth i fyfyrwyr gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn annog prifysgolion i roi sylw i'r briff gan Supporting Professionalism in Admissions i sefydliadau addysg uwch, sy'n trafod arferion da mewn perthynas â ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r canllaw yn rhoi gwybodaeth am faterion ac egwyddorion sy'n ymwneud â pholisïau derbyn teg ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches o bob oed, gan gynnwys cyngor i brifysgolion am faterion fel trefniadau pontio a chymorth, cymwysterau, goresgyn rhwystrau iaith, statws ffioedd dysgu a'r cymorth ariannol sydd ar gael.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2016-2020 yn cynnwys y nod y dylai Llywodraeth Cymru ei hun fod yn batrwm o amrywiaeth a chynhwysiant erbyn 2020. Un o brif elfennau hyn yw denu ymgeiswyr mwy amrywiol i'r Gwasanaeth Sifil yn Nghymru. Byddwn yn defnyddio ein rhaglen allgymorth, sy'n rhoi manylion am y grwpiau addysgol, diwylliannol a chymunedol y byddwn yn ymwneud â hwy wrth recriwtio i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys grwpiau cymorth i ffoaduriaid a'r rheini sy'n ceisio

lloches. Gobeithiwn ddefnyddio'r rhaglen hon i annog cyrff eraill yn y sector cyhoeddus i weithio mewn ffordd debyg.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r trydydd sector er mwyn asesu gwerth gwirfoddoli gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches i'w sefydliadau ac i gymdeithas yng Nghymru yn ehangach. Bydd y Rhaglen Hawliau Lloches yn rhoi rhagor o gyfleoedd gwirfoddol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel rhan o'r gwasanaeth hwnnw.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gwasanaeth gwarcheidiaeth i Gymru, gyda chymorth rhwydweithiau cyfoedion, fel rhan o'r broses o ailddatgan ymrwymiad Cymru i groesawu plant sy'n ceisio lloches sydd ar ben eu hunain.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor yn dangos cefnogaeth gref i wasanaeth gwarcheidiaeth yr Alban, gan nodi ei fod yn fodel o arfer da wrth roi cymorth cynhwysfawr i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weld sut y gellid datblygu gwasanaeth o'r fath yng Nghymru, gan gydnabod ar yr un pryd bod dyletswyddau cyfreithiol yn bodoli i roi gwasanaeth eiriolaeth i'r plant hyn eisoes. Mae'r dyletswyddau hyn i'w cael yn Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac, os yw'n ymwneud ag achos o fasnachu mewn plant, drwy'r Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Masnachu Mewn Plant (ICTA). Y Swyddfa Gartref sy'n cyllido'r gwasanaeth ICTA ac mae'n cael ei dreialu yng Nghymru ers dechrau 2017.

Byddai datblygu unrhyw 'wasanaeth gwarcheidiaeth' i Gymru yn gorfod rhoi sylw i'r ddarpariaeth bresennol hon, ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellid datblygu hyn ynghyd â gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth eraill – fel y Rhaglen Hawliau Lloches – i roi gwasanaeth sy'n addas i anghenion plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod person dynodedig ac wedi'i hyfforddi'n briodol fod ar gael ym mhob awdurdod lleol i gynnal asesiadau oedran plant sy'n ceisio lloches.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sicrhau bod £350,000 ar gael, a hwnnw i'w reoli gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac i'w roi i'r rhanbarthau gwasanaethau cymdeithasol. Diben y grant yw rhoi arian sefydlu i ysgafnhau'r pwysau ar awdurdodau lleol sy'n deillio o'r angen i roi llety i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a gofalu amdanynt. Bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyllid mewn ffordd hyblyg er mwyn ateb anghenion capasiti eu sefydliadau a'r plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches y maent yn eu

gwasanaethu. Os bydd awdurdodau lleol yn credu bod hynny'n angenrheidiol, gallant ddefnyddio'r arian hwn i sicrhau bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n addas yn y gwaith o gynnal asesiadau oedran ar gael yn eu hardal.

At hynny, bydd un rhan o'r Rhaglen Hawliau Lloches yn rhoi cymorth i blant os ydynt yn anghytuno â'u hasesiad oedran. Bydd Tros Gynnal Plant yn casglu gwybodaeth am y broses o asesu oedran er mwyn helpu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ganfod pa newidiadau y gellid eu gwneud i wella'r broses.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y Saith Cam i wneud Cymru yn Genedl Noddfa.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid yr egwyddorion sy'n sail i'r mudiad Cenedl Noddfa, ac rydym yn awyddus i drafod yr argymhelliad hwn ymhellach gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y mudiad City of Sanctuary a Chynghrair Ffoaduriaid Cymru.

Efallai y bydd rhai o elfennau'r 'Saith Cam i Noddfa', fel y manylir y rheini ym maniffesto'r Gynghrair, yn anodd i'w cyflawni gan fod polisi lloches yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl. Er enghraifft, heb reolaeth dros bolisi mewnfudo na phenderfyniadau am loches, ni fyddai'n bosibl ymrwymo i "roi diwedd ar amddifadedd yng Nghymru." Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cyfle i wneud cynnydd sylweddol gyda phob un o'r saith cam a'r materion y maent yn tynnu sylw atynt.

Goblygiadau Ariannol – Mae goblygiadau ariannol pob un o argymhellion y Pwyllgor wedi cael eu hystyried yn unigol, ond bydd unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o ymrwymadau cadarn yn yr ymateb hwn yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol. Fel y nodwyd uchod, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i edrych ar yr opsiynau ar gyfer cyflawni rhai o argymhellion y Pwyllgor. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o edrych ar yr opsiynau yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Carl Sargeant
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
25 Mai 2017